

## Gwers 8: Cestyll

**Nod y Wers:** Adeiladwyd cestyll fel symbol i ddychryn a bygwth pobl. Ydych chi'n cytuno gyda'r safbwynt yma?

Tasg 1. Ysgrifennwch gwestiynau i'r atebion isod:

- Y Dref Ffiwdal: **Sut**.....?
- Brenin: **Pwy**.....?
- Y Werin: .....**gwaelod**.....?
- Wiliam: .....**o Normandi**?
- 1066: **Pa flwyddyn**.....?



Tasg 2. Sgiliau Meddwl - safbwyntiau (views) gwahanol.

Darllennwch y ffynonellau isod sy'n rhoi safbwyntiau gwahanol am bwrpas cestyll yn ystod yr Oesoedd Canol. Mewn 2 liw gwahanol, uwcholeuwch gwybodaeth **postif** a **negyddol** am gestyll.

Ffynhonnell 1

Adeiladwyd cestyll i reoli'r bobl lleol. Roedd gan Wiliam enw drwg oherwydd y ffordd roedd yn rheoli Normandi yng ngogledd Ffrainc. Roedd pobl yn ei ofni, lladdwyd cannoedd o'i wrthwynebwyr ac roedd Wiliam yn ymfalchio yn y dull yma o reoli. Roedd yn benderfynol i wneud yn union yr un peth yng Nghymru a Lloegr. Roedd y cestyll yn symbol o'i bwer dros y bobl.

*Darn allan o lyfr 'Y Normaniaid yng Nghymru' gan Bill Jones, Hanesydd. Ysgrifennwyd yn 2015.*

Ffynhonnell 2

Mae cestyll yn lefydd braf iawn. Dwi'n byw ac yn gweithio yma ac mae'n ddiogel iawn - enwedig o fewn waliau'r beili. Mae gennyf digon o dir ffarmio i dyfu cnydau a llawer o werin bobl yn gweithio ar y caeau. Dwi'n gwneud llawer o arian wrth fyw yn yr ardal yma.

*Marchog yn siarad am ei brofiad o fyw mewn castell mwnt a beili yn 1098.*

Tasg 3 - Cwestiynu

1. Wrth edrych ar y lliwiau, pa ffynhonnell sydd **o blaid** y ddadl bod cestyll yn symbol i ddychryn pobl a pha rhai sydd **yn erbyn** y ddadl? Pam?

✓ O Blaid = .....  
Oherwydd.....

X Yn erbyn = .....  
Oherwydd.....


2. Yn eich barn chi, pa ffynhonnell/ffynonellau **sy'n ddibynadwy** (reliable) wrth ateb y ddadl yr adeiladwyd cestyll fel symbol i fygwth a ddychryn pobl? Pam?

Mae ffynhonnell..... yn ddibynadwy oherwydd.....  
 .....  
 .....

3. Yn eich barn chi, pa ffynhonnell/ffynonellau **sydd ddim yn ddibynadwy** (unreliable) wrth ateb y ddadl yr adeiladwyd cestyll fel symbol i fygwth a ddychryn pobl? Pam?

Nid yw ffynhonnell.....yn ddibynadwy oherwydd.....  
 .....  
 .....

### Diwedd glo - Map Meddwl



#### Geirfa

Gwrthwynebwy	<i>Opposition</i>
Ymfalchio	<i>Proud</i>
Penderfynol	<i>Determined</i>
Dychryn	<i>Scare</i>
Effeithiol	<i>Effective</i>
Croesawu	<i>Welcoming</i>
Diogel	<i>Safe</i>
Cnydau	<i>Crops</i>
Werin bobl	<i>Common people</i>
Marchog	<i>Knight</i>
Adeiladwyd	<i>Built</i>
Bygwth	<i>Threat</i>